
**Sioe Deithiol 'Beth sy'n Bwysig i Fi Nawr' 2021 gydag elusen Pobl yn Gyntaf**




Mae cangen Pobl yn Gyntaf Cwm Taf yn cwrdd ag unigolion ag anableddau dysgu.

Bydd gweithdy wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal yn Aberdâr ac Ystrad yr wythnos nesaf, ac un gweithdy'n cael ei gynnal ar-lein.

Bydd y gweithdai hyn yn rhoi cyfle i bobl ag anableddau dysgu siarad am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.





Bydd y gweithdy cyntaf yn defnyddio lluniau i ddysgu am y pethau sy'n bwysig i bobl ag anableddau dysgu.



Bydd yr ail weithdy yn defnyddio ffilm i gofnodi'r pethau da a'r pethau sydd ddim cystal sydd wedi digwydd iddyn nhw yn ystod y pandemig.



Bydd y trydydd gweithdy yn gwrando ar farn pobl ar y cyfleoedd oriau dydd sydd ar gael ar hyn o bryd.



Bydd Sioeau Teithiol Pobl yn Gyntaf yn cael eu cynnal ar y dyddiadau isod.




**Dydd Llun, 16 Awst - cae criced Canolfan Chwaraeon Cwm Rhondda, Ystrad.**

- Sesiwn 1: 10.30am-12pm
- Sesiwn 2: 1pm-2.30 pm




**Dydd Mawrth, 17 Awst - Canolfan Chwaraeon Sobell, Aberdâr.**

- Sesiwn 1: 10.30am-12pm
- Sesiwn 2: 1pm-2.30 pm




**Dydd Gwener, 20 Awst - Achlysur ar-lein dros Zoom**

- Sesiwn 1: 11am-12pm




Y mis diwethaf, cytunodd y Cabinet i'n gadael ni i dreulio rhagor o amser yn siarad â'r bobl leol fel bod modd i ni lunio cynllun cyfleoedd oriau dydd newydd.

Y pwrpas yw llunio cynlluniau buddsoddi ar gyfer y dyfodol a fydd yn gwella'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl.



Er mwyn cyflawni'r gwaith yma, byddwn ni'n lansio gwefan 'Fy Niwrnod i, Fy Newis i' Mae hyn yn rhan o'r fenter Dewch i Siarad ehangach, er mwyn i bobl allu dysgu rhagor a rhannu'u syniadau ar gyfer dyfodol y gwasanaeth.




I gael rhagor o wybodaeth am Sioe Deithiol 'Beth sy'n Bwysig i Fi Nawr' 2021, neu i ofyn cwestiwn am yr achlysuron, e-bostiwch Dawn Price o elusen Pobl yn Gyntaf Cwm Taf: e-mail-dawn@rctpeoplefirst.org.uk. e-mail-dawn@rctpeoplefirst.org.uk.